



## Penderfyniad ar yr Apêl

Gwrandawriad a gynhaliwyd ar 8/06/16  
Ymweliad â safle a wnaed ar 8/06/16

gan Declan Beggan BSc (Hons) MSc  
DipTP DipMan MRTPI

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru  
Dyddiad: 03/08/16

## Appeal Decision

Hearing held on 8/06/16  
Site visit made on 8/06/16

by Declan Beggan BSc (Hons) MSc DipTP  
DipMan MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers  
Date: 03/08/16

**Cyf yr apêl: APP/Q6810/X/16/516168**

**Cyfeiriad y safle: Afon Clywedog, Brithdir, Dolgellau, Gwynedd.**

**Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.**

- Gwneir yr apêl o dan Adran 43 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) 2006 yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau ar gyfer tynnu dŵr a'i Gronni.
- Gwneir yr apêl gan Mr Jonathan Needle ar ran Derwent Hydroelectric Power yn erbyn y penderfyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
- Gwrthodwyd y ceisiadau am drwyddedau, Rhifau Cyfresol: WPCC1633 (Tynnu Dŵr) a WPCC1634 (Cronni), ar 18 Rhagfyr 2015.
- Mae'r trwyddedau y gwnaed cais ar eu cyfer yn ymwneud â gosod a gweithredu cynllun ynni dŵr newydd.

## Penderfyniad

- Gwrthodir yr apêl.

## Materion Rhagarweiniol

- Gwnaed y cais yn erbyn cefndir o gyfnewid llawer o ohebiaeth rhwng yr apelydd a CNC yn dilyn cyngor cyn gwneud cais a cheisiadau a wrthodwyd yn flaenrol ar gyfer cynllun tebyg yn dyddio'n ôl i fis Rhagfyr 2009. Derbyniwyd y ceisiadau ar gyfer apêl fel rhai dilys ar 13 Mawrth 2014.
- Gwrthodwyd y ceisiadau gan CNC ar 18 Rhagfyr 2015 yn y telerau a osodwyd allan mewn datganiad penderfyniad, sydd yn gyffredinol yn ymwneud â'r ffaith, yn dilyn Aseiad Priodol<sup>1</sup> (AP), nad oedd CNC yn fodlon bod y wybodaeth ategol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn ddigonol i ddangos y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd<sup>2</sup>.

<sup>1</sup> Mae Rheoliad 61 (1) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn datgan bod yn rhaid i awdurdod cymwys, cyn penderfynu i ymgymryd â, neu roi unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer, cynllun neu brosiect sydd yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeidd neu ar safle morol oddi ar yr arfordir Ewropeidd (un ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) ac nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig neu'n angenrheidiol i reolaeth y safle hwnnw, gynnal aseiad priodol o'r goblygiadau ar gyfer y safle hwnnw gan ystyried amcanion cadwraeth y safle hwnnw.

<sup>2</sup> Safle a warchodir yn llym a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeidd. Mae Erthygl 3 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu rhwydwaith Ewropeidd o safleoedd cadwraeth pwysig o

4. Mae CNC yn mynnu nad yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dangos digon o dystiolaeth neu ddealltwriaeth i ddod i'r casgliad na fyddai'r lefelau is yn yr afon a fyddai'n cael eu profi o ganlyniad i'r cynllun a gynigir yn lleihau'r lleithder cymharol yn y ceunant yr effeithir arno i raddau a fyddai'n cael effaith niweidiol ar y bryoffytau sy'n chwarae rôl allweddol o ran nodi'r cynefin ar gyfer ei ddynodi'n ACA.

### **Cefndir**

5. Byddai'r cynllun a gynigir yn cael ei leoli ar Afon Clywedog ym Mrithdir, ger Dolgellau. Byddai'r cynllun a gynigir yn dychwelyd y dŵr a dynnir tua 1.6-1.9<sup>3</sup> Km i lawr yr afon o'r man tynnu. Mae'r afon yn y rhan a ddihysbyddir<sup>4</sup> yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd, gyda chrychdonnau'n fwyaf amlwg yn y rhannau isaf ond, wrth i'r graddiant gynyddu i fyny'r afon, mae'r afon yn newid i fod yn rhaeadrau/pyllau, yn llifo ar waelod ceunant dwfn. Byddai'r cynllun ynni dŵr a gynigir yn defnyddio'r disgyniad naturiol i bweru'r cynnig.
6. Mae rhan sylweddol o'r rhan a ddihysbyddir yr effeithir arni o bosibl gan y cynnig yn cael ei adnabod yn lleol fel 'Llwybr Cenllif' ac fe'i defnyddir fel llwybr troed gan bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r llwybr yn dilyn cwrs yr afon, trwy neu uwchben y ceunant. Mae coetir yn gorchuddio mwyafrif y rhan a ddihysbyddir.
7. Mae'r rhan berthnasol o Afon Clywedog yn ffurfio rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Coedydd Dyffryn Wnion ac mae'n adnabyddus am ei choetiroedd sy'n llawn bryoffytau. Mae'r SoDdGA hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr ACA. Mae'r ACA yn cynnwys cynefinoedd sy'n cynnwys coetir a phrysgoed sych, a chynefin o'r fath yw'r prif reswm dros ddewis yr ACA; mae'n enghraifft fawr o hen goedwigoedd derw 'dail digoes' yng Ngogledd Cymru, ac mae'n cynnwys fflora Atlantig o ran bryoffytau megis mwsoglau a llysiâu'r afu sydd angen lefelau uchel o leithder i'w cynnal. Mae hen goedwigoedd derw 'dail digoes' yn un o'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u rhestru yn Atodiad I y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau y mae ACA yn cael eu dynodi ar eu cyfer. Mae Cynllun Rheoli Craidd ACA yn datgan, 'nodwedd allweddol o bwysigrwydd Ewropeidd yw'r cymunedau cyfoethog o fryoffytau Atlantig sy'n aml wedi datblygu'n dda o fewn y math hwn o gynefin Atodiad I', a hefyd mae'n amlygu'n benodol y lleithder fel ffactor allweddol sy'n llywodraethu cyflwr y cynefin Atodiad I hwn.

### **Prif Fater**

8. O'r holl dystiolaeth a'r sylwadau a wnaed, ac o'm hymweliad â'r safle, rwy'n ystyried mai'r prif fater yw a oes digon o wybodaeth i ddangos beth fyddai effaith debygol y cynnig ar ecoleg y rhan o Afon Clywedog a ddihysbyddir, yn ystod adegau pan fyddai dŵr yn cael ei dynnu, gyda sylw penodol i gyfarwydd yr ACA.

### **Rhesymau**

#### *Effaith ar ecoleg yr ACA*

9. Yn ganolog i'r mater hwn yw p'un a oes digon o dystiolaeth wedi'i darparu i ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw ostyngiad yn lefelau'r afon yn sgil y cynllun a gynigir yn

---

ansawdd uchel (Natura 2000) a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i warchod y 189 o fathau o gynefinoedd a'r 788 o rywogaethau a nodir yn Atodiad I a II y Gyfarwydddeb (fel y'i diwygiwyd). Mae'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir yn rhai yr ystyrir eu bod â'r angen mwyaf am gadwraeth ar lefel Ewropeidd (ac eithrio adar).

<sup>3</sup> Nid yw'r partïon yn cytuno ar hyd y rhan a ddihysbyddir, gyda'r apelydd yn cyfeirio at ffigwr o 1.6 Km a CNC yn cyfeirio at 1.9 Km, fodd bynnag, derbyniodd y ddau barti yn y Gwrandawriad nad yw'r gwahaniaeth yn sylweddol berthnasol i ganlyniad yr apêl.

<sup>4</sup> Hyd yr afon rhwng y man lle y tynnir y dŵr a'r man lle y dychwelir y dŵr, gyda llai o lif o ganlyniad i dynnu dŵr.

lleihau'r lleithder cymharol yn y ceunant i raddau a fyddai'n cael effaith niweidiol ar fryoffytau sydd o fewn y ACA.

10. Mae ACA yn ddynodiad sy'n deillio o Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd. Nod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw sicrhau cadwraeth amrywiaeth eang o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion prin, dan fygythiad neu endemig. Mae rhai o'r 189 o fathau prin a nodweddiadol o gynefinoedd yn cael eu targedu ar gyfer cadwraeth yn eu rhinwedd eu hunain gyda'r cynefinoedd a'r rhywogaethau rhestredig a nodir yn Atodiad I a II yn cael eu hystyried i fod â'r angen mwyaf am gadwraeth ar lefel Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi'i thrawsosod i gyfraith Prydain drwy 'Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010'.
11. Mae'n bolisi Llywodraeth y DU fod CNC yn arddel dull rhagofalus mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Ymhlith dogfennau eraill, mae cyhoeddiad y Llywodraeth, 'Securing the Future'<sup>5</sup>, yn nodi y bydd achosion lle bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli adnoddau naturiol ar sail gwybodaeth rannol. Yn yr achosion hyn lle mae risg o effeithiau niweidiol sylweddol ac mae mesurau lliniaru'n ymddangos yn annhebygol o ddiogelu yn eu herbyn, caiff yr egwyddor ragofalus ei mabwysiadu.
12. Mae'r ddau barti'n cytuno mai'r prif ddylanwad ar leithder cymharol yw glawiad, a hefyd nad llif/lefelau'r afon yw'r prif yrrwr o ran pennu lleithder cymharol. Roedd yr asesiad lleithder a gyflwynwyd gan yr apelydd a'r dadansoddiad dilynol diweddarach yn ystyried nifer o newidynnau megis lefel y dŵr, glawiad, tymheredd, amser o'r dydd, a phellter fertigol a llorweddol o'r afon. Wedyn, rhedwyd modelau llifo lluosog llinellol a oedd yn cynnwys amrywiaeth o gyfuniadau o newidynnau. Mae'r apelydd yn dadlau bod eu dadansoddiad o ddata a gasglwyd ar y safle, gan gynnwys canfyddiadau 'Nodyn Technegol' ychwanegol a gyflwynwyd yn y Gwrandawriad, yn dangos nad oes cysylltiad rhwng llif yr afon a lleithder.
13. Mae CNC yn dadlau nad yw'r apelydd wedi cynnal dadansoddiad ystadegol priodol o'r data a gasglwyd ganddynt er mwyn pennu arwyddocâd llif/lefelau'r afon mewn perthynas â lleithder. Mae CNC yn dadlau bod angen dadansoddiad aml-amrywedd, yn hytrach na dadansoddiad yn cymharu dim ond dau newidyn megis lleithder cymharol yn erbyn llif neu leithder cymharol yn erbyn tymheredd. Roedd asesiad lleithder gwreiddiol yr apelydd yn datgan, yn ddelfrydol, y gellir defnyddio dull modelu aml-amrywedd i ymchwilio dylanwad pob un o'r newidynnau ar leithder cymharol, ond oherwydd bod y data'n gyfres cyfnod, mae hyn yn gwneud modelu o'r fath yn gymhleth oherwydd bod pob pwynt data'n gysylltiedig â ac wedi'i ddylanwadu gan yr un blaenorol, h.y. yn aml, mae'r data'n ymglybberthynnol. Mae'r apelydd yn mynnu, er mwyn ceisio dileu ymglybberthyniad o'r data, cafodd y data ei samplio a rhedwyd modelau llifo llinellol eto. Yn ogystal, mynnir na ddilynwyd model ychwanegol cyffredinol a fyddai'n caniatáu ar gyfer perthnasoedd mwy cymhleth rhwng y newidynnau i'w hastudio, â'r rheswm a roddwyd oedd 'oherwydd y nifer fawr o bwyntiau data yn y cyfnod astudio, nid oedd y cyfrifiadur yn ddigon grymus'. Roedd yr apelydd wedi ehangu asesiadau lleithder blaenorol gyda nodyn cyngor technegol ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y Gwrandawriad, a oedd yn dadlau bod y dadansoddiad pellach hwn wedi defnyddio mwy nag un newidyn, e.e. lleithder cymharol, dyfnder a thymheredd.
14. Er y byddwn yn cytuno â'r apelydd mai prif yrrwr lleithder cymharol yw glawiad, serch hynny, mae ffactorau eraill a allai gael dylanwad, megis gwynt, gorchudd cwmwl,

<sup>5</sup> Securing the Future – Delivering UK Sustainable Development Strategy

wynebwedd, topograffi, ac amser o'r flwyddyn. Yn benodol, mae CNC yn tynnu sylw at rôl parthau niwl yn y gofod cyfyng o amgylch gwaelod y ceunant, a barn CNC yw bod niwl o'r fath yn cael ei ollwng i'r atmosffer gan ddŵr sy'n symud, a bydd unrhyw ostyngiad mewn llif yn debygol o effeithio ar y llif niwl, yn annibynnol ar osod amod o beidio ag ymyrryd â llif. Yn ogystal, mae CNC yn dadlau y bydd newidiadau i'r llifoedd ystod ganolig sy'n creu parthau niwl o gwmpas rhaedrau a sgydiau yn debygol o gael effaith ecolegol sylweddol. Mae'n bosibl y gallai effeithiau rhai o'r newidynnau eraill hyn gael eu boddi gan effaith glaw oherwydd ei uchafiaeth mewn perthynas â lleithder cymharol. Er fy mod yn nodi cynnwys nodyn cyngor technegol ychwanegol yr apelydd, serch hynny, nid yw'r dadansoddiad ychwanegol hwn yn cynnwys y math o ddata sy'n gysylltiedig â ffactorau eraill a allai fod yn ddylanwadol mewn perthynas â lleithder cymharol o fewn y ceunant. Yn fy marn i, mae sensitifrwydd y safle yn mynnu y dylid mabwysiadu dull rhagofalus, yn enwedig oherwydd bod nifer o'r rhywogaethau hynny yr effeithir arnynt ag anoddefiad tuag at ddisychiad.

15. Mae safbwynt CNC mewn perthynas ag effeithiau posibl newidynnau eraill ar leithder cymharol mewn perthynas â bryoffytau megis mwsoglau a llysiâu'r afu wedi'i hysbysu gan nifer o ffynonellau<sup>6</sup>, gan gynnwys Cymdeithas Fryolegol Prydain, sy'n datgan, 'Mae'r fflora mewn ceunentydd yn sensitif i ostyngiadau mewn lleithder ac mae'n debygol y bydd lleihad mewn llif o ganlyniad i gynllun ynni hydrodrydanol yn cael rhywfaint o effaith, yn arbennig drwy gynyddu hyd cyfnodau o amodau sychach. Mae'n rhaid y bydd amledd llai o chwistrellu o rhaedrau, gostwng lefel cymedrig y dŵr a'r lleihad yn y cyfraddau llif uchaf i gyd yn llunio ymateb ymhlith y cymunedau o blanhigion dros gyfnod o amser'. Yn ogystal, tynnodd CNC sylw at barthau niwl a gaiff eu creu ar safle'r apêl sy'n gyfagos i rhaedrau a sgydiau a oedd yn gwneud ardaloedd â llysiâu'r afu, sy'n sensitif i ddysychiad, yn llaith tra'r oedd creigiau eraill ar bellter tebyg o'r afon yn sych a'u mwsoglau'n sych. Mae CNC yn dadlau bod arsylwadau ar gyrsiau dŵr eraill yn dangos, ar lif isel, y gall maint y parthau niwl gael ei leihau'n ddramatig, gyda pharthau niwl wedi'u cysylltu'n hanfodol â'r sianeli dŵr. Er fy mod yn gwerthfawrogi safiad yr apelydd nad yw hyn yn profi bod llif yn creu parthau niwl sydd yn eu tro yn gwneud y bryoffytau'n llaith, fodd bynnag, mae sylwadau CNC ar y safle hwn yn nodi creigiau eraill ar bellter tebyg o'r afon a oedd yn sych a'u mwsoglau'n sych heb effeithiau parth niwl; yn ogystal, mae sylwadau a wneir mewn mannau eraill<sup>7</sup> wedi dangos achlysuron rheolaidd o fryoffytau sy'n sensitif i ddisychiad mewn parthau niwl.
16. Mae'r apelydd yn cwestiynu perthnasedd sylfaen dystiolaeth CNC oherwydd iddi beidio ag ymwneud yn benodol â'r safle, serch hynny, mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn rhoi arwydd defnyddiol ynghylch effeithiau posibl tynnu dŵr ar rywogaethau ag anoddefiad tuag at ddisychiad, ac roedd hefyd yn cynnwys arsylwadau penodol i safle a gynhaliwyd yn ystod cyfnodau o gyfraddau llif yr amcangyfrifwyd eu bod o fewn yr ystod a gynigir ar gyfer y cynllun.
17. Mae CNC yn mynnu na ellir eithrio gostyngiadau mewn lleithder ac unrhyw effeithiau niweidiol ar barthau niwl, ac felly, ni ellir eithrio effeithiau dilynol ar rywogaethau sy'n sensitif i ddysychiad ychwaith. Tra ei bod yn ymddangos nad yw dadansoddiad yr apelydd yn nodi unrhyw berthynas rhwng llif a lleithder cymharol, serch hynny, mae astudiaeth flaenorol ar effeithiau posibl newidynnau eraill ar leithder cymharol wrth ymwneud â bryoffytau yn dangos bod perthynas gymhleth ar waith ac efallai bod y

<sup>6</sup> Cyfeirir at baragraffau 7.1.1-4 Datganiad Achos ac Atodiad T a U CNC ac at ddatganiad achos CNC

<sup>7</sup> O fewn Cymru, yr Alban ac Iwerddon, cyfeirir at baragraff 20 sylwadau naw wythnos CNC

ffactorau eraill hyn chwarae rhan fwy canolog o ran rheoleiddio lleithder cymharol, yn enwedig effaith llai o lif ar leithder, a'r rôl y mae parthau niwl yn ei chwarae.

18. Yn fy marn i, heb ddata mwy cadarn ar ffurf ddadansoddiad aml-amrywedd fel yr awgrymwyd gan CNC, ac yn seiliedig ar sensitifrwydd i newidiadau mewn lleithder cymharol ymhlith rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir a geir ar y safle, rwyf o'r farn y dylid mabwysiadu dull rhagofalus fel yr argymhellir gan bolisi'r Llywodraeth. Yn absenoldeb dull aml-amrywedd, ni allaf ddod i'r casgliad y tu hwnt i bob amheuaeth wyddonol resymol na fyddai rhywogaethau bryoffytau sy'n anoddefgar i ddisychiad yn cael eu heffeithio'n niweidiol.

#### *Mesurau Lliniaru a Gynigir*

19. Er bod yr apelydd yn mynnu na fyddai'r cynllun a gynigir yn niweidiol i fryoffytau, serch hynny, mae'n dadlau o blaid mesur lliniaru allweddol er mwyn diogelu bryoffytau ar y safle, os tybir fod hynny'n ofynnol, sef y gellir monitro lleithder y safle'n gyson drwy ddefnyddio technoleg 'glyfar', gyda data'n bwydo i mewn i system reoli fel y gellir defnyddio gwyradau o'r amrediad naturiol mewn lleithder i sbarduno cau'r tyrbîn i lawr, gan ddileu fel hyn y risg o gyfnodau hir artiffisial o leithder isel wedi'u hachosi gan dynnu dŵr. Er gwaethaf sicrwydd yr apelydd y byddai'r dechnoleg 'glyfar' yn galluogi'r mesurau lliniaru i fod yn effeithiol, ychydig iawn o fanylion sydd wedi'u cyflwyno ynghylch sut y byddai'r fath fesurau lliniaru'n cael eu rheoli, a natur y dechnoleg i'w defnyddio. Yn ychwanegol ar hyn o bryd, nid yw'r apelydd wedi nodi a gosod y lefelau sbarduno priodol yn ystod y tymhorau amrywiol er mwyn cyflawni'r effaith a ddymunir. Yn ystod y Gwrandawriad, nid oedd yr apelydd yn gallu cadarnhau lle mae technoleg o'r fath wedi'i defnyddio ar unrhyw gynlluniau ynni dŵr blaenorol. Yn absenoldeb y wybodaeth hon, ni ellir asesu'r mesur lliniaru a gynigir yn ddigonol i benderfynu na fyddai unrhyw niwed i'r bryoffytau ar hyd y rhan a ddi-hysbyddir.

#### *Materion Eraill*

20. Byddai'r trydan a gynhyrchir<sup>8</sup> gan y cynllun a gynigir yn gwneud cyfraniad bach ond buddiol i ddarpariaeth ynni adnewyddadwy, ac felly byddai'n cyfrannu at bolisiau cenedlaethol sydd â'r nod o helpu i leihau allyriadau carbon; mae hyn yn pwysu o'i blaid. Yn fwy cyffredinol, byddai'n darparu rhai manteision economaidd yn nhermau darparu incwm i'r tirfeddianwyr<sup>9</sup>, a byddai'n cynnig y potensial ar gyfer manteision tymor byr yn y cyfnodau caffael ac adeiladu; fodd bynnag, o ystyried maint y cynllun, byddai'r manteision hyn yn gyfyngedig. Serch hynny, mae deddfwriaeth megis Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 yn galw am ddefnyddio dull cytbwys o ran datblygu cynaliadwy, ac yn yr achos hwn nid yw'r manteision yn gorbwyso'r pryderon a nodir.
21. Mae'r apelydd yn cyfeirio at CNC yn camddefnyddio'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd mewn perthynas â'r cais am Aseiad Priodol ar gyfer y cynllun, a oedd yn ei dro yn ganolog i rhesymeg CNC wrth iddo wrthod y ceisiadau. Tynnodd yr apelydd a CNC fy sylw at gyfraith prawf a sefydledig<sup>10</sup> mewn perthynas â'r cais am Aseiad Priodol fel y nodir yn y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Yn fy marn i, roedd gan CNC hawl berffaith i fynnu a chynnal Aseiad Priodol, oherwydd yn groes i farn yr apelydd, yn seiliedig ar y

<sup>8</sup> Mae'r apelydd yn awgrymu uchafswm ynni a gynhyrchir o 500kW.

<sup>9</sup> Andrew a Hilary Richards, a oedd yn bresennol yn y Gwrandawriad ac a fynegodd eu cefnogaeth i'r cynllun.

<sup>10</sup> Gan gynnwys Smyth v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol [2015] Llys Apêl Cymru a Lloegr Cic 174, Waddenzee Achos C-127/02, a Regina (An Taisce (Ymddiriedolaeth Genedlaethol Iwerddon)) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a'r Newid yn yr Hinsawdd [2014] Llys Apêl Cymru a Lloegr Civ 1111.

wybodaeth<sup>11</sup> ger ei fron, gan gynnwys y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr apelydd, roedd tebygolrwydd o effaith sylweddol ac roedd amheuaeth wyddonol resymol yn parhau mewn perthynas â'r effaith niweidiol bosibl ar gyfanrwydd yr ACA; am resymau a eglurir yn flaenorol, rwyf innau o farn debyg.

22. Mae'r apelydd yn dadlau y bu CNC yn anghyson yn ei ddull o drwyddedu cynlluniau ynni dŵr yn yr ACA ac mae wedi tynnu fy sylw at gynlluniau ynni dŵr eraill sydd wedi'u caniatáu. Fodd bynnag, ni ellir cymharu â'r cynlluniau hyn a ganiateir, gyda nifer o'r cynlluniau yn sylweddol wahanol mewn termau ecolegol a rhywogaethau sensitif sy'n bresennol, ac mae cynlluniau eraill yn rhai hanesyddol ac wedi'u trwyddedu a'u gosod cyn i'r ardal gael ei dynodi'n ACA, a chafodd rhai cynlluniau eu harolygu gyda set ddata penodol a ddefnyddiwyd i bwysu a mesur unrhyw debygolrwydd o effeithiau sylweddol ar yr ACA. Beth bynnag, rwyf wedi ystyried y cynllun a gynigir yn ôl ei rinweddau ei hun.
23. Er fy mod yn nodi pryderon yr apelyddion ynghylch y ffordd y mae CNC wedi ymdrin â'r ceisiadau, gan gynnwys y diwygiad i'r manau tynnu a gollwng, nid yw hynny'n newid fy asesiad o rinweddau'r cynnig.

### **Casgliadau**

24. Nid yw'r apelydd wedi darparu digon o wybodaeth i ddangos beth fyddai effaith debygol y cynnig ar ecoleg y rhan o Afon Clywedog a ddi-hysbyddir, yn ystod adegau pan fyddai dŵr yn cael ei dynnu, gyda sylw arbennig i gyfanrwydd yr ACA. Byddai caniatáu cynllun o'r fath o dan yr amgylchiadau hyn yn groes i amcanion Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf yr Amgylchedd 1995, a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, sydd gyda'i gilydd â'r nod o ddiogelu buddiannau ecolegol.
25. Am y rhesymau a roddir, a gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion perthnasol eraill a godwyd, dof i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.

*Declan Beggan*

AROLYGYDD

---

<sup>11</sup> Gan gynnwys adroddiad gan Sam Bosanquet (Atodiad T datganiad CNC) a barn Cymdeithas Fryolegol Prydain (Atodiad U datganiad CNC).

## **YN YMDDANGOS**

### **AR RAN YR APELYDD**

Jamie Needle BSc (Anrh) Ph.D	Rheolwr Prosiect gyda Derwent Hydroelectric Power Ltd.
Jonathan Needle	Cyfarwyddwr Derwent Hydroelectric Power Ltd.
M. E. Newton BSc (M/C)	Ymgynghorydd Hunangyflogedig ar Fryoffytau
Paul Davison	AMEC Foster Wheeler

### **AR RAN CYFOETH NATURIOL CYMRU**

Gwion Lewis	Bargyfreithiwr
Breda Cronin	Cyfreithiwr
Emma Allcorn BSc (Anrh)	Uwch Swyddog Trwyddedu
Gideon Carpenter	Uwch Gynghorydd Polisi Ynni Dŵr
Sam Bosanquet	Ecolegydd Planhigion Anfasgwlaidd

### **TRYDYDD PARTÏON**

Andrew a Hilary Richards	Tirfeddianwyr
--------------------------	---------------

### **DOGFENNAU A GYFLWYNWYD YN Y GWRANDAWIAD**

1. Nodyn Cyngor ar gyfer Derwent Hydroelectric Power Limited, dyddiedig mis Mai 2016.
2. Rhan o daenlen Excel yn dangos Cofrestr Bylchau Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – mis Ebrill 2016.
3. Nodyn yn dangos cynlluniau ynni dŵr presennol, a gynllunnir ac a gynigir o fewn yr ACA.
4. Neges e-bost oddi wrth Jamie Needle dyddiedig 7 Rhagfyr 2015.
5. Neges e-bost oddi wrth Sam Bosanquet dyddiedig 3 Mehefin 2016.
6. Rhan o Encyclopedia of Planning Law and Practice Cyfrol 5 yn ymwneud â 'Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010'.
7. Amodau Trwydded Drafft a awgrymir os caniateir yr apêl.